LLANDEGFEDD

Newsletter | Issue 23 | March 2015

Earning the trust of our customers every day

Providing our neighbours and leisure users at Llandegfedd with an update about...

Dŵr Cymru Welsh Water's new development

The construction teams have performed wonders in the last few weeks and the new Water Sports centre and the new Visitor centre are revealing themselves to be very fine buildings, constructed to an exemplary standard. Congratulations and thanks go to the unsung staff at A A Davies and Lewis the landscapers but also to their subcontractors and partners.

We open on 1st April, but we are also now working towards an open weekend on the weekend of May 23rd /24th with press, publicity and a wider invitation for interested stakeholders. More will be published on this in the next few weeks.

Water sports Centre

The Sailing Club have had access to site for a pre-season work party on 14th March and then for their first sail of the new season the 15th. They sailed again on Sunday 22nd but for all these visits the water sports centre was closed while final touches had to be resolved We open the building on 1st April and Llandegfedd Water sports (formerly known as Gwent Adventures) will then be open for sailing, wind surfing and paddle sport courses, and equipment hire. Our prices can be found here.

The Boat Store and Rangers Workshop

Anthony A Davies, our principal contractor has almost withdrawn from site, after a job well done. They will leave the site to Lewis's, the civil engineering contractors, who have provided the new waste water system with its new sewer all the way to the new works at the foot of the dam. Lewis's are also restoring roads, car parks and landscaping right up to 1st April, and beyond for some of the external works that remain. Then there will be a separate follow on project for some more landscaping, as part of the next project, which is to build the boat store and rangers work shop for the start of the 2016 season.

The Containers

The sailing club and other groups have been allocated space within the Watersports Centre where possible, and the extended use of containers is now agreed with those groups that can temporarily operate from containers as their storage facilities. The Containers will go in 2016 with the arrival of the boat store, as this is a planning condition on the original Water sports centre scheme.

Angling

The angling season will begin on 1st April and we look forward to welcoming our angling customers on their return to Llandegfedd. The lake will be newly-stocked, and the fishery will be managed to new heights now that we have the right facilities for what promises to be one of Welsh Water's top venues for still water fly fishing, competing with Llyn Brenig and Llys y Fran to offer the very best fishing in Wales, and beyond. As I write the new jetties are due the week commencing 23rd March and installation is still expected to be a swift operation. The Rangers have prepared the fleet of 32 anglers' boats for hire for the new season, and they will all have new, more powerful engines. The fleet, and the quality of the fishing, will attract national and international competitions, especially when our angler customers can appreciate the facilities that are available to them in the visitor centre. The anglers price list is here.

Footpaths

The new footpaths and walking trails, including the path to the car park at the north end of the reservoir are nearing completion. Keen walkers will be able to use the new trails from the 1st April.

Café – Visitor Centre

The café opens on 1st April 2015 and the staff look forward to welcoming new and existing users of our facilities. Fishing permits will be on sale from the shop downstairs, but the rest of the shop may not be fully open until the following week.
A sample menu of the excellent café fare that will be served is here, see also the website **llandegfedd.co.uk**.

And Finally...

This will be the last of these newsletters, they started in October 2012. A measure of how times change is that for the first issues I thought I was at the cutting edge of modern communication media by sending out this kind of email-mailshot. Now I sense that I should probably be making way to social media for such communications, and that I have become an old fogey in the space of two and a half years! My readership has included the users of the reservoir from the beginning, and of course they have been my main concern. But I have also made a point of adding the email address of anyone who has touched the project, in any way, including many colleagues in Dŵr Cymru Welsh Water, and I would like to thank them all for their incredible contributions. More recently I added the many members of some of the out-door activity industry groups that I attend. To them I recommend the discipline of trying to keep the customers and neighbours informed, every step of the way, when there is a project like this one to deliver.

Please continue to email me at **tom.packham@dwrcymru.com** if you have any questions. Keep an eye out on Llandegfedd's Facebook and Twitter pages for more regular updates. From now on we will switch to social media and the website to publish Llandegfedd news, and the staff on site will post these for all those who need the information.

Best wishes

Tom Packham
Dŵr Cymru Welsh Water, Estates Business Manager

LLANDEGFEDD

Newyddlen | Rhifyn 23 | Mawrth 2015

Yn ennill ffydd ein cwsmeriaid bob dydd

Yn rhannu'r newyddion diweddaraf am ddatblygiad newydd Dŵr Cymru â'n cymdogion a'r bobl sy'n mwynhau gweithgareddau hamdden yn Llandegfedd

Mae'r timau adeiladu wedi cyflawni gwyrthiau dros yr wythnosau diwethaf, ac mae'r Ganolfan Chwaraeon Dŵr newydd a'r Ganolfan Ymwelwyr newydd bellach yn adeiladau braf iawn, sydd wedi eu cwblhau i safon eithriadol. Llongyfarchiadau a diolch i'r staff di-glod yn A A Davies a Lewis y tirlunwyr, a hefyd i'w his-gontractwyr a'u partneriaid.

Byddwn ni'n agor ar 1 Ebrill, ond mae ein bryd ar gynnal penwythnos agored ar benwythnos 23/24 Mai, gyda chyhoeddusrwydd yn y wasg, a gwahoddiad ehangach i'r holl fudd-ddeiliaid sydd â diddordeb yn y safle. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am hyn dros yr ychydig wythnosau nesaf.

Y Ganolfan Chwaraeon Dŵr

Cafodd y Clwb Hwylio gyfle i fynd i'r safle ar gyfer parti gwaith cyn dechrau'r tymor ar 14 Mawrth, ac i hwylio am y tro cyntaf yn y tymor newydd ar y 15fed. Aethant allan i hwylio eto ar ddydd Sul yr 22ain, ond bu'r ganolfan chwaraeon dŵr ar gau yn ystod y cyfnodau hyn wrth i'r gwaith terfynol gael ei gwblhau. Byddwn ni'n agor yr adeilad ar 1 Ebrill a bydd Chwaraeon Dŵr Llandegfedd (gynt Anturiaethwyr Gwent) yn agor bryd hynny hefyd ar gyfer cyrsiau hwylio, hwylfyrddio a chwaraeon rhwyfo, ac i logi offer. Mae manylion y prisiau yma.

Y Storfa Gychod a Gweithdy'r Gofalwyr

Mae Anthony A Davies, ein prif gontractwr, bron a bod wedi gorffen eu gwaith ar y safle, ar ôl gwneud gwaith arbennig o dda. Byddan nhw'n gadael y safle yn nwylo Lewis, y contractwyr peirianneg, sydd wedi darparu'r system dŵr gwastraff newydd a'i charthffos newydd yr holl ffordd i'r gweithfeydd newydd wrth waelod yr argae. Bydd Lewis wrthi'n adfer y ffyrdd, y meysydd parcio ac yn tirlunio'r safle hyd at 1 Ebrill, a'r tu hwnt ar gyfer rhai rhannau o'r gwaith allanol sy'n weddill. Wedyn bydd yna brosiect pellach ar wahân ar gyfer mwy o waith tirlunio, yn rhan o'r prosiect nesaf, a fydd yn cynnwys adeiladu'r storfa gychod a gweithdy'r gofalwyr ar gyfer dechrau tymor 2016.

Y Blychau Storio

Clustnodwyd lle ar gyfer y clwb hwylio a'r grwpiau eraill yn y Ganolfan Chwaraeon Dŵr lle bo modd, a chymeradwywyd defnydd estynedig o'r blychau storio gyda'r grwpiau hynny sy'n gallu gweithredu dros dro gan ddefnyddio'r blychau fel cyfleusterau storio. Bydd y Blychau yn mynd yn 2016 pan fydd y storfa gychod yn barod, am fod hyn yn un o amodau cynllunio'r cynllun gwreiddiol ar gyfer y ganolfan chwaraeon dŵr.

Pysgota

Bydd y tymor pysgota'n dechrau ar 1 Ebrill ac rydyn ni'n edrych ymlaen at gael croesawu ein cwsmeriaid pysgota nôl i Landegfedd. Bydd y llyn wedi cael ei stocio o'r newydd, a chaiff y bysgodfa ei rheoli i safonau newydd nawr bod gennym ni'r cyfleusterau i greu un o ganolfannau gorau Dŵr Cymru ar gyfer pysgota â phlu mewn dyfroedd llonydd, a fydd yn gallu cystadlu â Llyn Brenig a Llys-y-Frân i gynnig y pysgota gorau yng Nghymru a'r tu hwnt. Bydd y glanfeydd newydd yn cyrraedd yn ystod wythnos 23 Mawrth ac nid ydyn ni'n disgwyl i'r gwaith gosod gymryd fawr o dro. Mae'r Gofalwyr wedi paratoi'r fflyd o 32 o gychod pysgota a fydd ar gael i'w llogi ar gyfer y tymor newydd, a bydd injans newydd a mwy pwerus ym mhob un. Bydd y fflyd, ac ansawdd y pysgota, yn denu cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn enwedig am y bydd ein cwsmeriaid pysgota'n gallu mwynhau cyfleusterau penigamp y ganolfan ymwelwyr hefyd. Mae'r rhestr brisiau ar gyfer pysgota yma.

Llwybrau cerdded

Mae'r llwybrau cerdded newydd, gan gynnwys y llwybr i'r maes parcio ym mhen gogleddol y gronfa, yn agos at gael eu cwblhau. Bydd modd i gerddwyr ddefnyddio'r holl lwybrau newydd o 1 Ebrill ymlaen.

Y Caffi a'r Ganolfan Ymwelwyr

Bydd y caffi'n agor ar 1 Ebrill 2015 ac mae'r staff yn edrych ymlaen at gael croesawu defnyddwyr hen a newydd i fwynhau ein cyfleusterau. Bydd trwyddedau pysgota ar werth yn y siop lawr llawr, ond mae'n bosibl na fydd gweddill y siop yn agor yn llwyr tan yr wythnos ganlynol. Mae bwydlen enghreifftiol o fwyd rhagorol y caffi yma, ac ar wefan **llandegfedd.co.uk**.

Ac yn olaf...

Hon fydd yr olaf o'r newyddlenni hyn a gychwynnodd yn Hydref 2012. Gyda'r rhifynnau cyntaf, roeddwn i'n meddwl fy mod ar flaen y gad o ran cyfryngau cyfathrebu modern yn dosbarthu newydlenni fel hyn trwy e-bost. Ond mae pethau'n newid yn gyflym, ac erbyn hyn rwy'n teimlo hwyrach y dylwn i fod wedi ildio i'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cysylltiadau o'r fath, a fy mod i wedi mynd yn hen ffasiwn mewn cwta dwy flynedd a hanner! Ers y dechrau'n deg, mae'r darllenwyr wedi cynnwys defnyddwyr y gronfa, ac wrth gwrs, nhw oedd fy mhrif ffocws. Ond rydw i wedi gwneud pwynt o ychwanegu cyfeiriadau e-bost pawb sydd wedi dod i gysylltiad â'r prosiect, mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys nifer o gydweithwyr o fewn Dŵr Cymru Welsh Water, a hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad anhygoel. Yn fwy diweddar, fe ychwanegais i aelodau nifer o grwpiau o'r diwydiant gweithgareddau awyr agored y mae gennyf gysylltiad â nhw. Rwy'n argymell i'r grwpiau hyn fynd i'r arfer o geisio rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r holl gwsmeriaid a chymdogion, ar bob cam o'r ffordd, pan fo prosiect fel hwn i'w gyflawni.

Croeso mawr i chi barhau i anfon negeseuon ataf yn **tom.packham@dwrcymru.com** os oes unrhyw gwestiynau gennych. Cadwch lygad ar dudalennau Facebook a Twitter Llandegfedd i glywed y newyddion diweddaraf. O hyn ymlaen, byddwn ni'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a'r wefan i gyhoeddi newyddion Llandegfedd, a bydd y staff ar y safle yn postio'r newyddion yma i bawb sydd angen y wybodaeth.

Dymuniadau gorau

Tom Packham
Dŵr Cymru Welsh Water, Rheolwr Busnes yr Ystadau